5.247

# Anerchgerdd i Syr William Thomas Lewis.

TON—"*Ymdaith Gwyr Harlech.*"

Wi! Hawddammor, Fab athrylith,
Glew etifedd mawl di-ragrith,—
Arno heigia Duwies Bendith
Radau'i biith a'i blawd;
Yn ein gwledd, cawn dorchi'n llewys,
Er urddoli'n gyforddylys.
Hawl "Syr WILLIAM THOMAS LEWIS"
I'w rydeddus rawd;
Cymro pur-linachol—Aër hynafiaid gwrol,
Prif beiriannwyr, coethwyr call,
Llaw foddau gallofyddol;
O Forganwg hên yr hanyw,
Arwr odiaeth Merthyr ydyw,
Haeddol idd ei urddas,—heddyw
Nyddwn awen wawd;
Myfyriai fore'i fawredd—Gyfrin wers ei fuchedd,
"Gwna a ddylit, doed a ddêl,"
Yn sail a sêl ei sylwedd;
Hon fu canwyll oleu'i lygad,
Sêdd a safon ei gymeriad—
Grisiau euraid ei dderchafiad,—
Fferyllt mâd ei ffawd.

Drwy ei fewnol benderfyniad,
Gyda'i dalent dirf ddi-doliad,
Ymddolenodd am ddylanwad
Cyrau'r wlad i'w lwydd;
Drwy ei awydd daer, anniwall,
A'i ddyhewyd llwyddai'i ddeall,
Sawdd a sylfon rhifion rhyall,
Heb un gwall i'n gwydd;
Enwog brif wyddonydd, Môr a thir athronydd,
Haenau'r glo mewn brô a bryn,
A meini'r glyn a'r glenydd;
Pen saer celfydd, mesuronydd,
Tân a dwr meintonai'n derydd,
Ffroenau'r nwyau, ffrwyna'n ufydd,
Rhinia'r danchwa'n rhwydd;
Rhin delidau'r Ynys, Sy'n ollawl wrth ei 'wyllys,
Agoriadau'r aig yn swrth
Sy'n crogi wrth ei wregys;
Cudd wybodau masnach bywyd
Sy'n amlygwel i'w feddylfryd,
Pair gyfalaf—llafur hefyd
Syflyd wrth ei swydd.

Penaeth hawddgar miloedd gweithwyr,
Ufyddolion feibion llafur—
Llawgaledion ddewrion pybyr
Tàn, ac ar y tòn,—
Pan egluront eu gwasgfeuon,
Clust ymwrendy ar eu cwynion,
Cydymdeimla law a chalon
O'i frawdgarol fron;
Cwyn y tlawd a'i gyffes, Egyr ddôr ei fonwes,
Teilwng tawdd yn hylif hawdd,
Un nawdd a'i hael foneddes;
Megis llachar huan hinon
Yn gwasgaru ei belydron,—
Cyd-feiriolant rew trallodion
Dyfn y galon don;
Henwr chwerw'i brofiad, Gweddw ac amddifad,
Clâf neu glwyfus ar ei glwyd
Diwalla—fwyd a dillad;
Fel rhyw ffynon fawr ddiysbydd
Yn bwrlymu allan beunydd,
Llifa rhadau pur ein Perydd
Mewn lledneisrwydd llon.

Gawria'r Cymro'i fyrdd bendithion,
Una'r Sais âg ef o'i galon,—
Meib yr Alban ac Iwerddon,
Bloeddiant glôd ein Glyw;
Prif iachawdwr deiliaid llafur
Yn y "Sliding Scale" gymesur,
A'r "Protection Code" i'w cysur,
Eryr Merthyr yw;
Eilir sain gorfoledd hyd ddau Dy y Senedd,
Adsain y goroian clyd
Lesmeiria'r byd cyfanedd,—
Molir campaith Gwron Gwalia
Dros Ynysedd heirdd Tasmania,
Deimawnt Merthyr a Glyn Rhondda
Ddyd Siberia'n syw;
Merched Cerdd â'u miwsig, Moledd ein Pendefig,
Llwyr syfrdanai "Fuddug" deg,
Ein Banon chweg Brydeinig;
Nodai warant ei enrhydedd,
A "Victoria" i hysgrif fysedd,
(Hir a hwy mwynhaed ei gorsedd)
Teiroes feddo'i fyw.

Uwch urddoler ein Penadur,
Dyged eto'i drostan asur
Arfbais eglur "Arglwydd Merthyr"—
Breiniau'r Modur mâd;
Boed hir einioes orfoleddus
Iddo ef a Lady LEWIS,
Yn adnoddau gogoneddus
Iddynt hwy a'u hâd;
Llwydd gorono'i fuchedd, Mwyfwy tyfo'i fonedd,
Uwch, uwch hoedder ei fawrhad
Yn swyn ei Wlad, a'i Senedd;
Bendith Iôn ar hwn a'i hanes,
A'i nawddogol foneddiges,—
Rhies hawddgar, pendefiges
Fawr ei lles a'i llâd;
Gwiried wyrion wyrion, Faniar wers ein Gwron—
"Gwna a ddylit, doed a ddel"
Fel sêl ddi-gêl i'r galon;
Boed eu hîl yn bendefigion,
Cymru'n nodded "Duw a digon,"
Tra f'o dwr yn Nhâf a Chynon,
A glo'n cynhesu'n gwlad.

Alban Arthan, 1885.

NATHAN DYFED.

X2CS21 4915
(Reynolds, Jonathan)